

Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Argaeledd Gwasanaethau Bariatrig – 09 Gorffennaf 2014

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu adroddiad ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i argaeledd gwasanaethau bariatrig yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei ystyriaeth drwyadl a chynhwysfawr i'r pwnc hwn.

Byddai chwech allan o wyth o argymhellion y Pwyllgor yn golygu, yn uniongyrchol neu o bosibl, y byddai angen rhagor o gyllid i'w rhoi ar waith.

O ystyried y pwysau ar gyllid Llywodraeth Cymru a GIG Cymru, mae'n bwysig bod yn glir y byddai angen i wariant o'r fath fod yn niwtral o ran cost, yn ei gyfanrwydd. Mae Adroddiad y Pwyllgor yn cyfeirio at rai enghreifftiau o feysydd lle gellid cyflawni hyn, ond byddai angen rhagor.

Felly, wrth i Lywodraeth Cymru dderbyn argymhellion yr Adroddiad, nid oes modd i hynny fod ar sail rhoi blaenoriaeth i ragor o fuddsoddi yn y rhan hon o GIG Cymru ar draul meysydd clinigol eraill, y tu hwnt i'r adnoddau ychwanegol sydd wedi'u hymrwymo eisoes i gynyddu niferoedd yr ymyriadau llawfeddygol lefel 4 dros y pedair blynedd nesaf.

Mae ymatebion Llywodraeth Cymru i bob un o argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:

Argymhelliad 1

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Byrddau Iechyd Lleol i ddarparu amlinelliad eglur o'r camau a gymerir i roi *Llwybr Gordewdra Cymru Gyfan* ar waith yn llawn, a darparu manylion am yr amserlenni cysylltiedig. Dylai'r camau gweithredu a'r amserlenni hyn gael eu llywio gan y cynlluniau sy'n cael eu creu gan bob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru a'r fanyleb gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau Lefel 3 sy'n cael ei datblygu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Ymateb: Derbyn

Eleni rydym wedi newid y broses asesu ac wedi ymgymryd ag asesiad mwy ffurfiol o'r Llwybr. Fis Ionawr 2014, ysgrifennodd swyddogion at y saith Bwrdd Iechyd Lleol yn gofyn am dystiolaeth yn erbyn gofynion y gwasanaeth ar gyfer pob lefel o'r Llwybr.

Mae'r dystiolaeth hon wedi cael ei dadansoddi gan ddefnyddio sgôr coch/oren/gwyrdd ac mae'r sgôr wedi'i rhannu â'r Byrddau Iechyd Lleol.

Mae'r Byrddau Iechyd Lleol wedi ymateb a byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau yn fuan.

Bydd swyddogion yn ymgymryd â gwaith pellach gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddiweddarau'r Llwybr, ar ôl i'w Manyleb ar gyfer Gwasanaethau Lefel 3 gael ei datblygu.

Goblygiadau Ariannol:

Efallai y bydd costau i rai Byrddau Iechyd Lleol er mwyn datblygu gwasanaethau ymhellach i fodloni gofynion Llwybr Gordewdra Cymru Gyfan yn llawn. Bydd disgwyl i'r Byrddau dalu'r costau hyn o'u cyllidebau presennol.

Argymhelliad 2

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd y bydd yn mynnu bod cynlluniau Byrddau Iechyd Lleol a'r fanyleb gwasanaeth Lefel 3 Cymru gyfan sydd ar ddod yn cynnwys mesurau i fynd i'r afael â'r diffyg gwasanaethau amlddisgyblaethol a ddarperir yng Nghymru o fewn y 12 mis nesaf.

Ymateb: Derbyn

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan weithio gyda rhanddeiliaid dieteteg allweddol ar ran Llywodraeth Cymru, wedi datblygu Manyleb Gwasanaethau Lefel 3 Cymru Gyfan ar gyfer Gordewdra a Pholisi Mynediad Clinigol i oedolion. Mae'r dogfennau hyn wedi cael eu datblygu mewn cydweithrediad a'u seilio ar gonsensws, a byddant yn cael eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Gorffennaf 2014.

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith gyda'r Byrddau Iechyd Lleol, gyda chymorth Iechyd Cyhoeddus Cymru, i ddiweddarau'r Safonau Llwybr unwaith y bydd y Fanyleb Gwasanaeth Lefel 3 wedi'i datblygu.

Goblygiadau Ariannol:

Efallai y bydd costau i rai Byrddau Iechyd Lleol er mwyn datblygu gwasanaethau ymhellach i fodloni gofynion Llwybr Gordewdra Cymru Gyfan yn llawn. Bydd disgwyl i'r Byrddau dalu'r costau hyn o'u cyllidebau presennol.

Argymhelliad 3

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu a chyhoeddi fframwaith monitro a gwerthuso ar gyfer gwasanaethau bariatrig yng Nghymru, sydd hefyd yn dangos llinellau atebolrwydd, i fesur cysondeb ac effeithiolrwydd y llwybr atgyfeirio ar gyfer cleifion sydd dros bwysau a chleifion gordew er mwyn iddynt symud i fyny ac i lawr yr haenau cymorth perthnasol,

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru, drwy Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, yn datblygu fframwaith monitro a gwerthuso ar gyfer gwasanaethau bariatrig yng Nghymru, ar gyfer ei gyflwyno cyn diwedd y tymor hwn yn y Cynulliad.

Goblygiadau Ariannol:

Bydd y gost o gyflwyno'r fframwaith yn cael ei thalu gan ddefnyddio adnoddau presennol Llywodraeth Cymru/Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru/

lechydd Cyhoeddus Cymru.

Argymhelliad 4

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Deoniaeth Cymru a Cholegau Brenhinol perthnasol i ystyried hyfforddiant ar gyfer gweithwyr iechydd proffesiynol, ar draws pob disgyblaeth, ar ordewdra, ei achosion, ei driniaeth a'r llwybr triniaeth perthnasol, a'i ganlyniadau. Dylai hyfforddiant gynnwys cyfweild ysgogol a rheoli newid mewn ymddygiad. Dylid hefyd rhoi ystyriaeth i beth arall gellid ei wneud i ymsefydlu'r fethodoleg 'gwneud i bob cyswllt gyfrif'.

Ymateb: Derbyn

Mae Deoniaeth Cymru wedi dweud wrth Lywodraeth Cymru bod y Colegau Brenhinol eisoes yn ystyried sut gellir cynnwys yr hyfforddiant hwn yn y gwaith o adolygu'r cwricwlwm, a bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Ddeoniaeth ac eraill er mwyn datblygu'r mater hwn. Bydd rhaid cael cymeradwyaeth y GMC i unrhyw newidiadau i'r cwricwlwm,

Goblygiadau Ariannol:

Bydd y Ddeoniaeth yn cyflwyno unrhyw newidiadau gofynnol i'r cwricwlwm gan ddefnyddio ei hadnoddau presennol.

Argymhelliad 5

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad cost a budd cynhwysfawr o weithdrefnau llawdriniaeth fariatrig, gan gynnwys ystyried costau a buddion cymdeithasol, i weld i ba raddau y maent yn darparu gwerth am arian. Dylid archwilio'r cyfle a ddaw yn sgil cynigion buddsoddi i arbed, fel yr awgrymwyd gan y Gweinidog.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Bydd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r sylfaen dystiolaeth bresennol ynghylch costau a manteision llawdriniaethau bariatrig. Os teimlir nad yw'r dystiolaeth a gesglir drwy gyfrwng yr ymarfer hwnnw'n ddigonol, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y posibilrwydd o gomisiynu sefydliad academaidd yng Nghymru i ymgymryd â dadansoddiad cost a budd o lawdriniaethau bariatrig, gan adeiladu ar yr ymchwil a'r dystiolaeth bresennol a'u hadolygu.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried hefyd y posibilrwydd o gefnogi prosiect o'r fath, os oes angen, drwy gyllid Buddsoddi i Arbed gyda'r Byrddau Iechyd Lleol.

Goblygiadau Ariannol:

Ymchwilir i gostau posib cynnal dadansoddiad cost a budd annibynnol a chynhwysfawr gan Lywodraeth Cymru, os teimlir bod hynny'n angenrheidiol yn dilyn yr adolygiad mewnol o'r dystiolaeth bresennol. Os bydd angen, ac os bydd modd

canfod cyllid yng nghyllidebau presennol Llywodraeth Cymru (heb symud arian o wasanaethau rheng flaen), byddwn yn anelu at gwblhau'r gwaith hwn cyn diwedd y tymor hwn yn y Cynulliad.

Argymhelliad 6

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i ystyried cynnwys gofyniad yn y meini prawf cymhwysedd ar gyfer llawdriniaeth fariatrig – yn debyg i feini prawf NICE – bod claf yn ymrwymo i gysylltiad dilynol tymor hir (trwy ei feddyg teulu neu dîm amlddisgyblaethol) ar ôl llawdriniaeth. Bydd angen i wasanaethau dilynol ledled Cymru gael eu hymestyn i ategu'r gofyniad hwn.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi trafod y mater hwn gyda Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, sydd wedi cadarnhau nad oes ganddo unrhyw wrthwynebiad o ran egwyddor i ychwanegu'r gofyniad hwn at ei feini prawf mynediad pan adolygir y rhain y tro nesaf.

Fel y mae'r Pwyllgor wedi nodi, er mwyn bodloni'r argymhelliad hwn, mae'n rhaid i wasanaethau rheoli pwysau nad ydynt yn cynnwys llawdriniaeth gael eu darparu'n ehangach yng Nghymru i ddechrau. O ystyried hyn, os ychwanegir y gofyniad ynghylch ôl-ofal at ei feini prawf mynediad, efallai na fydd posib i gleifion sydd wedi cael llawdriniaeth fariatrig weithio wedyn gyda thîm amlddisgyblaethol lleol, hyd nes bod gwasanaethau o'r fath yn cael eu darparu yn ardal eu Bwrdd Iechyd Lleol.

Goblygiadau Ariannol:

Er y bydd adolygu'r meini prawf cymhwyso'n niwtral o ran cost, bydd costau i Fyrddau Iechyd Lleol o ran sicrhau bod gwasanaethau dilynol ar gael ym mhob ardal ar ôl llawdriniaeth. Bydd disgwyl i Fyrddau Iechyd Lleol dalu'r costau hyn o'u cyllidebau presennol.

Argymhelliad 7

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau ar y prosesau y dylid eu dilyn i gynorthwyo claf y bernir ei fod yn anghymwys ar gyfer llawdriniaeth fariatrig. Dylai'r canllawiau hyn roi sylw penodol i ba wybodaeth a ddarperir i unigolion anghymwys am y dewisiadau sy'n dal i fod ar gael.

Ymateb: Derbyn

Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnwys canllawiau hyn yn y fanyleb gwasanaethau ar gyfer gwasanaethau Lefel 3, y mae'n ei datblygu ar hyn o bryd ar ran Llywodraeth Cymru.

Goblygiadau Ariannol:

Er y bydd cynhyrchu'r canllawiau'n niwtral o ran cost, bydd costau i Fyrddau Iechyd Lleol o ran sicrhau bod gwasanaethau rheoli pwysau nad ydynt yn cynnwys

llawdriniaeth ar gael i gleifion sy'n cael eu hystyried yn anghymwys. Bydd disgwyl i Fyrddau Iechyd Lleol dalu'r costau hyn o'u cyllidebau presennol.

Argymhelliad 8

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'n gyfnodol yr angen am wasanaeth llawdriniaeth fariatrig lleol yng Ngogledd Cymru.

Ymateb: Derbynn

Mae adroddiad y Pwyllgor yn cydnabod bod gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru gynllun i gynyddu nifer y llawdriniaethau bariatrig a roddir i gleifion yn y Gogledd yn ystod y pum mlynedd nesaf, a hyd nes bydd nifer y llawdriniaethau'n cyrraedd 'màs critigol' o 120 y flwyddyn o leiaf, byddai gwasanaeth yn y Gogledd yn anghynaliadwy.

O dan y polisi y cytunwyd arno'n ddiweddar gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, ni fydd y nifer hwn o lawdriniaethau'n cael eu rhoi'n flynyddol tan o leiaf 2017/18.

Dylid nodi hefyd na fyddai'r ddarpariaeth o ran llawdriniaeth fariatrig yn ddim ond un elfen o'r gwasanaeth amlddisgyblaethol ehangach y byddai ei angen i gynorthwyo unigolion cyn ac ar ôl eu llawdriniaeth – fel y'i darperir gan WIMOS yn Abertawe. Byddai angen i gostau darparu'r gwasanaeth ehangach hwn gael ei gadw mewn cof wrth ystyried a fyddai gwasanaeth yn y Gogledd yn fwy manteisiol yn economaidd na'r trefniadau ar hyn o bryd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu'r mater hwn yn rheolaidd fel rhan o'i ymgysylltu cyson â Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, gan sicrhau bod y Pwyllgor hwn yn parhau i ystyried sefydlu canolfan yn y Gogledd wrth i nifer y llawdriniaethau gynyddu'n flynyddol i'r lefel sy'n ofynnol er mwyn cynnal gwasanaeth yn y Gogledd.

Goblygiadau Ariannol:

Efallai y bydd costau ychwanegol i'r Byrddau Iechyd Lleol wrth sefydlu canolfan fariatrig yn y Gogledd a rhoi llawdriniaethau yn y Gogledd yn hytrach nag yn Salford (gweler uchod). Byddai peidio â gorfod talu am y llawdriniaethau sy'n cael eu rhoi ar hyn o bryd gan Ymddiriedolaeth GIG Frenhinol Salford yn gwneud iawn am y costau hyn i ryw raddau, ond ar hyn o bryd rhagwelir mai'r Byrddau Iechyd Lleol fydd yn gorfod talu unrhyw gostau ychwanegol am ddarparu'r gwasanaeth yn y Gogledd, o'u cyllidebau presennol.